

Cofnodion y cyfarfod

A gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Gorffennaf 2020 yn rhithwir trwy Microsoft Teams

Aelodau		
Teitl	Cynrychiolydd	Yn bresennol
Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (BLIGC)	Patrick Coyle	Ydy
Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol	Donna Mead – Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Ydy
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol		
Cynrychiolydd Gofal Sylfaenol	Fraser Campbell – Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Gofal Sylfaenol (Gorllewin), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)	Ydy
Cynrychiolydd Fferylliaeth	Jamie Hayes, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.	Ymddiheuriadau
Cyfarwyddwr Nyrsio	Carole Bell – Cyfarwyddwr Nyrsio	Ydy
Arweinydd Polisi ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol, Llywodraeth Cymru	Fliss Bennee	Ymddiheuriadau
Swyddog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am safonau a llywodraethu	Craig Stevens	Ymddiheuriadau
Gwarcheidwad Caldicott o'r Sector Annibynnol		
Cynrychiolydd Cleifion / y Cyhoedd	Trevor Davis – Aelod lleyg / Eiriolwr Bevan / Claf	Ymddiheuriadau
Cymdeithas Sefydliadau Gofal Iechyd Annibynnol		
Cynrychiolydd Coleg Nyrsio Brenhinol	Yr Athro Y Fonesig June Clark	Ydy
Cyngor Cymdeithas Feddygol Prydain	Dr Farookh Jishi	Ydy

Uwch Arbenigwr ym maes Cyfraith Feddygol / Llywodraethu Gofal Iechyd	Vivienne Harpwood – Arbenigwr mewn Cyfraith Feddygol, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Powys	Ydy
Cynghorwyr		
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	David Teague – Rheolwr Rhanbarthol (Cymru), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Ydy
Cyfarwyddwr Meddygol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Anne Marie Cunningham – Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Gofal Sylfaenol ar ran Rhidian Hurle	Ymddiheuriadau
Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Darren Lloyd	Ydy
Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMAG)	Justine Parry – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Ydy
Mynychwyr Eraill		
Swyddfa Archwilio Cymru	Andrew Strong	Ydy
Is-gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMAG)	Neil Stevens – Dirprwy Gadeirydd a Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, Canolfan Ganser Felindre	Ydy
Ysgrifennydd		
Arweinydd ar gyfer Cefnogi'r Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Andrew Fletcher	Ydy
Swyddog Arweiniol Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Marcus Sandberg	Ydy

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd yr holl fynychwyr i gyfarfod rhithwir cyntaf y Bwrdd. Cafodd y cyfarfod blaenorol ei ganslo oherwydd oherwydd pandemig COVID-19, ond yn dilyn arolwg i aelodau'r Bwrdd, cytunwyd y dylai'r cyfarfod rhithwir hwn fynd yn ei flaen.

2. Datganiadau o Fuddiannau

Cafwyd un datganiad o fuddiant. Cytunodd y Cadeirydd y tro hwn, o ystyried y cyd-destun, nad oedd angen i'r aelod hwn adael y cyfarfod rhithwir pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod. Cytunwyd na ddylai'r aelod fod yn rhan o'r sgwrs pan fyddai'r eitem yn cael ei thrafod.

Atgoffwyd yr aelodau ei bod yn ofynnol i bob aelod gyflwyno ffurflen Datganiad o Fuddiant ffurfiol bob blwyddyn. Nodwyd nad oedd rhai aelodau wedi llenwi'u ffurflenni eleni ac y byddai Ysgrifennydd Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (BLIGC) yn cysylltu â'r rhai nad oedd wedi darparu'r ffurflenni hyn.

Cam Gweithredu: Yr ysgrifennydd i gysylltu ag aelodau nad ydynt wedi dychwelyd eu ffurflenni Datganiad o Fuddiant.

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

4. Materion sy'n Codi

Rhoddir diweddariad o gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol yn Atodiad 1. Rhoddir diweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol sydd heb eu cwblhau yn Atodiad 2.

Nododd y Cadeirydd nad oedd rhai camau wedi'u cwblhau oherwydd blaenoriaethu gwaith yn ystod pandemig COVID-19. Yn ogystal, wrth ymateb i'r arolwg, roedd yr aelodau wedi gofyn i'r cyfarfod rhithwir gael terfyn amser 2 awr. Felly, roedd rhai eitemau wedi'u gadael oddi ar yr agenda gwyno er mwyn gallu canolbwyntio ar y materion yr oedd angen eu trafod gyda'r aelodau. Bydd y camau hyn yn aros yn Atodiad 2 a byddant yn cael eu gweithredu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cyfeirnod Gweithredu 11.1-01/20 (isod) – Nodwyd mewn trafodaethau blaenorol bod Patient Knows Best yn trefnu i'w Llywodraethu Gwybodaeth (IG) gael ei adolygu'n allanol. Gofynnodd yr aelodau a oedd diweddariad ar hyn. Deallir bod yr ymarfer adolygu hwn wedi'i gynnal a'i fod yn cael ei gwblhau cyn ei anfon at randdeiliaid. Atgoffodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) y Bwrdd y byddai disgwyl o hyd i reolyddion data sy'n ymgysylltu â phorth cleifion gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA). Nodwyd bod sefydliadau GIG Cymru a oedd wedi ymgysylltu â phorth cleifion wedi cwblhau DPIA, mae'n bosibl bod pob sefydliad yn defnyddio'r porth yn wahanol. Nododd yr ICO hefyd, mewn DPIA, lle bydd prosesu yn arwain at risg uchel yn absenoldeb mesurau a gymerwyd gan y rheolydd i liniaru'r risg, bydd yn rhaid iddo ymgynghori â'r ICO o dan GDPR. Atgoffwyd yr aelodau bod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi gwneud DPIA ac roedd wedi ymgynghori â'r ICO yn ei gylch. Hysbyswyd y Bwrdd fod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi ystyried sylwadau'r ICO ac roedd hyn yn rhan o'u hymgyssylltiad â PKB. Yn ogystal â'r cyfeiriad/egwyddorion strategol ynghylch pryderon IG am gontractio gyda chyflenwyr, sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r cam uchod, pwysleisiodd yr aelodau fod angen ymagwedd genedlaethol o ddeall y weledigaeth ar gyfer porth cleifion.

5. Diweddariad Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Mynychodd John Sweeney, Rheolwr WASPI a Rheolwr Llywodraethu Rhannu Gwybodaeth ac Integreiddio Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i roi crynodeb o'r hyn y mae WASPI yn ei wneud ar gyfer aelodau ac fe gyflwynodd Strategaeth bum mlynedd WASPI.

Hysbyswyd yr aelodau bod y Strategaeth wedi'i datblygu i sicrhau'r canlynol:

- Bod WASPI yn darparu gwerth am arian, o ran ansawdd a maint yr allbynnau;
- Bod WASPI yn parhau i fod yn berthnasol, trwy sefydlu/ymgorffori ei le ym maes llywodraethu gwybodaeth; a
- bod gweithgarwch tîm canolog WASPI, grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol a'r gymuned ehangach o randdeiliaid yn canolbwyntio ar yr amcanion y cytunwyd arnynt.

Hysbyswyd yr aelodau yr ymgynghorwyd â phob rhanddeiliad WASPI ar y Strategaeth a gyflwynwyd iddynt i'w chadarnhau, gan gynnwys y pum grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd Rheoli WASPI. Roedd WASPI yn gofyn i'r Bwrdd gadarnhau'r Strategaeth a fyddai'n eu galluogi i weithio ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau i gyflawni'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt a restrir yn y ddogfen.

Roedd Aelodau BLIGC yn gefnogol i nodau, gweledigaeth ac amcanion WASPI. Nododd yr ICO ei bod yn cefnogi fframwaith WASPI, gan atgoffa aelodau bod gan yr ICO le ar Fwrdd Rheoli WASPI a bod rhagair gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn y copi diweddaraf o'r Cytundeb. Nododd yr ICO hefyd fod WASPI yn ategu Cod Ymarfer Rhannu Data yr ICO, a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd.

Gofynnodd y Grŵp Cyngori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMAG) a allai barhau i dderbyn diweddariadau ar gynlluniau strategaeth ac amcanion WASPI. Nododd WASPI bwysigrwydd darparu diweddariadau i IGMAG.

Hysbyswyd yr aelodau bod WASPI hefyd wedi bod yn ddefnyddiol o'r blaen lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu trwy nodi meysydd polisi y gall WASPI gyfrannu atynt, megis Dechrau'n Deg a Chynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC). Mae'r ymgysylltu yn caniatáu i WASPI gefnogi'r mentrau hyn i gael cytundebau rhannu gwybodaeth clir. Nodwyd bod ymgysylltu (yn enwedig â Llywodraeth Cymru) yn un o amcanion WASPI yn y Strategaeth.

Cytunwyd: Cytunodd aelodau i gadarnhau Strategaeth WASPI.

6. Goblygiadau Llywodraethu Gwybodaeth COVID-19

Eglurodd Darren Lloyd fod gweithwyr IG proffesiynol ar draws Cymru, o ganlyniad i bandemig COVID-19, wedi gorfod addasu ar frys i ddatblygiadau newydd a gynlluniwyd i gefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn. Rhoddodd Darren Lloyd drosolwg i'r aelodau o rai o'r meysydd allweddol y mae IG wedi bod yn rhan ohonynt.

6.1 Profi, Olrhain, Diogelu (TTP)

Hysbyswyd yr aelodau bod IG wedi chwarae rhan sylweddol ym mhob rhan o strategaeth TTP Llywodraeth Cymru. Hysbyswyd yr aelodau bod cytundeb rhannu gwybodaeth trosfwaol, yn seiliedig ar gytundeb WASPI, i wasanaethau cyhoeddus ddarparu TTP. Mae partneriaid y cytundeb hwn yn cynnwys Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Lluniwyd y cytundeb gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio eu gofynion hwy. Nodwyd bod Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd trwy fforwm IGMAG i sefydlu'r mecanweithiau hyn.

Trafodwyd elfennau gwahanol TTP, gan nodi y dylid cynnal DPIAs cyn cychwyn prosesu. Fodd bynnag, oherwydd natur y gofynion sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r pandemig, sy'n newidiol ac sy'n symud yn gyflym, cwblhawyd DPIAs ochr yn ochr â'r prosiect a byddant yn parhau i gael eu diweddarau.

- **Profi** – Nodwyd bod yr elfen hon o TTP yn cael ei gwneud mewn sawl ffordd (h.y. profion ar y rheng flaen a gall aelodau o'r cyhoedd drefnu eu profion eu hunain). Hysbyswyd yr aelodau bod Cymru yn ceisio cysylltu canlyniadau'r profion â'r cofnod iechyd electronig, sy'n wahanol i rai o'r profion yn Lloegr. Esboniwyd bod rhai o'r profion, fel aelodau o'r cyhoedd yn trefnu eu profion eu hunain, yn cael eu gwneud trwy'r rhaglen brofi gydag NHS England ac NHS Digital. Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod profion gwrthgyrff, sy'n bwriadu defnyddio gweithdrefnau profi am wrthgyrff sy'n bodoli eisoes i brofi a yw'r unigolyn wedi cael y feirws ai peidio ac a oes ganddo'r gwrthgyrff i ymladd y clefyd, y gellir eu defnyddio ar gyfer ysgolion a chartrefi gofal.
- **Olrhain** – Hysbyswyd yr aelodau bod olrhain cysylltiadau yn weithredol trwy wasanaethau olrhain cysylltiadau rhanbarthol a ddarperir gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r System Olrhain Cysylltiadau Genedlaethol. Eglurwyd bod y system wedi'i hwyluso gan NWIS a'i chynnal trwy Microsoft. Nodwyd y byddai cynllun gweithredu ar gyfer cynnyrch o'r maint hwn yn cymryd blynyddoedd fel arfer, ond mae wedi'i gwblhau mewn misoedd. Trafododd yr aelodau sut mae'r ddibyniaeth ar gael datrysiaid olrhain symudol wedi lleihau a sut mae Llywodraeth Cymru bellach yn edrych ar sut y bydd Cymru yn cyflwyno hwn.
- **Diogelu** – Hysbyswyd yr aelodau bod llythyrau wedi'u hanfon at unigolion yng Nghymru sy'n perthyn i'r categorïau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sydd â risg uchel o fynd yn ddirifol wael pe byddent yn dal y feirws. Nodwyd efallai y bydd angen anfon llythyrau pellach yn y dyfodol, ond er mai dyma'r dull gweithredu cyffredinol yn y gorffennol, efallai dim ond at grwpiau penodol o unigolion yr anfonir llythyrau yn y dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol i hyn a rhannwyd gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol, archfarchnadoedd, banciau bwyd ac ati i sicrhau bod y bobl hyn sy'n gwarchod eu hunain yn cael eu cefnogi. **Codwyd** y mater yn ymwneud ag unigolion sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un practis gan fod ganddynt sawl cyfeiriad, a chytunwyd bod angen ystyried hyn ymhellach.

Hysbyswyd yr aelodau bod sail gyfreithiol bresennol i gyrrff cyhoeddus ddibynnu arni. Er bod deddfwriaeth newydd i helpu awdurdodau cyhoeddus i brosesu data yn ystod y pandemig, mae'r rhain yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Cwestiynodd yr aelodau sut mae unigolion yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd i'w data. Nodwyd bod hysbysiadau preifatrwydd penodol wedi'u datblygu. Hysbyswyd yr aelodau bod cyfarwyddiadau penodol i'r Awdurdod Lleol eu defnyddio lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â darparwyr preifat. Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyfiawnhau sail gyfreithiol i'r sefydliadau hyn. Nodwyd y bu oedi wrth dynnu unigolion oddi ar y rhestr warchod gan fod y broses hon yn cymryd amser.

Nodwyd bod yr ICO wedi gweithio ochr yn ochr â Darren Lloyd a John Lawson yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ystyriaethau IG i'r strategaeth TTP. Nododd yr ICO ei bod wedi cael golwg ar y DPIA a'i bod yn gymharol sicr bod yr holl risgiau angenrheidiol wedi'u nodi. Trafododd yr aelodau fod y partïon sy'n rhan o'r cytundeb TTP yn Rheolyddion Data. Er bod hyn wedi achosi rhai problemau, y gobaith yw y bydd y rhain yn cael eu datrys. Hysbysodd yr ICO aelodau ei bod wedi bod yn deall gwersi a ddysgwyd o rannau eraill y DU yn eu hymagweddau at oblygiadau IG y feirws, gan gyflwyno hyn i ddull Cymru.

6.2 Hwb Data COVID-19

Hysbyswyd yr aelodau am un o'r mentrau a grëwyd i helpu i ddeall lledaeniad COVID-19 yng Nghymru. Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Bwrdd am Hwb Data COVID-19, a ddatblygwyd fel storfa ganolog ar gyfer y nifer fawr o ffynonellau data COVID-19 Cymru, a ddefnyddir wrth fonitro a rheoli'r pandemig.

Hysbyswyd yr aelodau bod y data y mae'r Hwb Data yn eu derbyn yn cael eu glanhau, eu gwneud yn ddienw a'u hintegreiddio i ddarparu'r metrigau amser real a'r dystiolaeth wyddonol sy'n ofynnol i gynorthwyo dealltwriaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a'r DU. Nodwyd nad yw'r Hwb Data yn darparu mynediad at unrhyw ddata ar lefel cleifion.

Hysbyswyd y Bwrdd bod yr wybodaeth ar gael mewn dangosfwrdd a chyfleuster casglu data. Mae adroddiadau'r Hwb Data ar gael i ddangos y canlynol:

- Capasiti mewn ysbytai ym mhob bwrdd iechyd, gan gynnwys y niferoedd sy'n cael eu derbyn a'u rhyddhau, gwelyau â pheiriannau anadlu mewnwithiol, gwelyau eraill sy'n gysylltiedig â COVID-19, lleoedd mewn corffdai a marwolaethau mewn ysbytai;
- Canlyniadau profion positif o labordy COVID-19 fesul awdurdod lleol;
- Nifer yr ymweliadau dyddiol ag Adrannau Brys ysbytai;
- Ystadegau gan y gwasanaeth ambiwlans a chanolfannau galw GIG 111; a
- Data apwyntiadau meddygon teulu.

Trwy ddefnyddio'r adroddiadau hyn a ddaw o'r Hwb Data, gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau:

- Nodi ardaloedd â phroblemau a thueddiadau o ran mynediad at ofal iechyd; a
- Rheoli capasiti yn seiliedig ar alw ac argaeledd.

Cafodd yr aelodau gipolwg ar y system i ddangos sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno ar ddangosfwrdd. Nodwyd bod yr Hwb Data ar gael ar gyfer y gwasanaeth yn unig gan fod modd camddehongli rhywfaint o'r data.

6.3 Rheoliadau Rheoli Gwybodaeth Cleifion (COPI)

Atgoffwyd yr aelodau fod rheoliadau COPI ar waith i ddiogelu a helpu sefydliadau i ddeall eu cyfrifoldebau wrth rannu a phrosesu gwybodaeth bersonol. O ganlyniad i'r pandemig, nodwyd bod angen adolygu rheoliadau COPI.

Rhodddwyd gwybod i aelodau bod llythyr wedi'i anfon gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr a chan Lywodraeth Cymru, a oedd yn gofyn i sefydliadau'r GIG ystyried defnyddio Rheoliad 3(4) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth Cleifion) 2002 i rannu gwybodaeth gyfrinachol cleifion gyda sefydliadau sydd â'r hawl i'w phrosesu o dan COPI at ddibenion COVID-19.

Esboniwyd i'r Bwrdd bod y llacio hwn yn berthnasol i ddyletswyddau sefydliadau o dan ddyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin yn unig, ac nad yw hyn yn diddymu'r gofynion o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Nodwyd hefyd nad yw'r llythyr hwn yn llacio'r rheolau ar gyfer ymchwil gan y bydd angen i hyn fynd drwy'r Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd o hyd, y mae Cadeirydd BLIGC yn rhan ohono, er mwyn derbyn cymorth ag Adran 251.

Rhodddwyd gwybod i aelodau bod y newidiadau hyn i reoliadau COPI ar waith tan fis Medi 2020. Fodd bynnag, disgwylir y caiff rhan o gwmpas y rheoliad ei hymestyn.

6.4 Rhestr Cleifion sy'n Gwarchod eu Hunain rhag COVID-19

Rhodddwyd gwybod i aelodau am fynediad diawdurdod at ddata lle anfonwyd llythyrau, a oedd i fod i unigolion agored i niwed yng Nghymru y nodwyd bod angen iddynt warchod eu hunain rhag COVID-19, i'r cyfeiriadau anghywir. Gwnaed y Bwrdd yn ymwybodol nad oedd y llythyrau hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol heblaw enw'r unigolion, eu cyfeiriadau (er mai cyfeiriadau blaenorol oedd y rhain) a'r ffaith y nodwyd eu bod yn perthyn i un o'r categorïau o unigolion mewn perygl uchel.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod cyfanswm o 13,000 o lythrau yn cynnwys y cyfeiriadau anghywir o ganlyniad i wall dynol. Nodwyd bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud yr achos hwn yn gyhoeddus a'i fod wedi ymddiheuro amdano. Dywedwyd wrth yr aelodau bod NWIS wedi adrodd am y mynediad diawdurdod at ddata i'r ICO a bod yr achos wedi'i gau bellach, ac mae camau ar waith i rwystro hyn rhag digwydd eto.

7. Diweddariad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Nododd yr ICO faint o waith a gyflawnwyd yn ddiweddar yn y gymuned IG, gan gynnwys drwy IGMAG, a gwnaeth ddiolch iddynt am eu cyfraniadau.

Rhoddwyd gwybod i aelodau bod yr ICO wedi addasu ei dull rheoleiddio yn ystod cyfnod y pandemig (<https://ico.org.uk/media/about-the-ico/policies-and-procedures/2617613/ico-regulatory-approach-during-coronavirus.pdf>) a'i bod wedi cysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i weld a oedd angen cymorth ychwanegol arnynt a sut roeddent yn dymuno parhau ag unrhyw gwynion neu waith achos diogelu data. Trafodwyd sut roedd y mwyafrif o sefydliadau yn hapus i'r ICO barhau fel arfer drwy roi gwybod iddynt os oedd unrhyw gwynion neu ymchwiliadau.

Rhoddodd yr ICO wybod i aelodau ei bod wedi datblygu nifer o ganllawiau yn ystod y pandemig, gan gynnwys canllawiau ar weithio gartref. Nododd yr ICO ei bod hefyd wedi cyhoeddi canllawiau yn ddiweddar ar gyfer y sector lletygarwch yn Lloegr.

Nodwyd bod Gwarcheidwad Caldicott y DU wedi cyflwyno Egwyddorion Caldicott er mwyn ymgynghori arnynt. Er nad yw'r rhain yn berthnasol yn uniongyrchol yng Nghymru, nododd aelodau eu dylanwad.

8. Grŵp Cyngori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMAG)

Rhoddwyd gwybod i aelodau bod Justine Parry, Cadeirydd IGMAG, wedi bod yn cyflawni rôl Ysgrifennydd y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, felly mae Neil Stevens, yr Is-Gadeirydd, wedi bod yn arwain trafodaethau IGMAG.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y gwaith sylweddol a gafodd ei gyflawni gan IGMAG dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Nodwyd bod IGMAG, fel fforwm, wedi newid i gyfarfodydd rhithwir wythnosol o ddiwedd mis Mawrth i ganol mis Mehefin. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod y newid hwn yn amhrisiadwy i alluogi aelodau o bob cwr o Gymru i rannu gwybodaeth, dealltwriaeth, materion a dogfennau (megis DPIAs ar raglenni penodol i COVID-19), a oedd yn gwella'r gymuned IG yng Nghymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu canllawiau cenedlaethol sy'n benodol i IG, a oedd yn ymdrin â phob agwedd ar IG yn ystod COVID-19 (gan gynnwys gweithio gartref, ymgynghoriadau rhithwir ac awgrymiadau cyffredinol) a hysbysiad preifatrwydd cenedlaethol ar gyfer COVID-19.

Nodwyd, o ganlyniad i lwyddiant rheoleidd-dra cyfarfodydd IGMAG, y bydd cyfarfodydd chwarterol IGMAG yn fisol, ac yna byddant yn symud i fodel ddwywaith y mis. Roedd aelodau IGMAG yn teimlo bod ymgysylltu fel hyn ar sail fwy rheolaidd yn gwella ac yn cefnogi sefydliadau yn lleol ac yn genedlaethol. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod yr ICO wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd.

Gwnaeth aelodau BLIGC ganmol y gwaith a'r trafodaethau a gynhaliwyd yn IGMAG, gan nodi eu cymhlethdod a pha mor gyflym roedd yn rhaid iddynt weithredu, er mwyn cefnogi gweithwyr ieuchyd proffesiynol ac unigolion ledled Cymru.

9. Prosiect Datix Cloud IQ Unwaith i Gymru

Gwnaed aelodau yn ymwybodol o gynlluniau i sefydlu datrysiad cenedlaethol yn GIG Cymru ar gyfer digwyddiadau a phryderon yr adroddir amdanynt. Mae IGMAG wedi codi rhai pryderon IG yn ymwneud â'r prosiect, gan nad yw gofynion diogelu data hanfodol wedi'u cynnwys yn y DPIA.

Cytunwyd mai BLIGC fyddai'n sicrhau'r gynrychiolaeth hon ond y byddai angen cefnogaeth gan IGMAG arnynt i roi'r wybodaeth dechnegol iddynt am y problemau dan sylw. Cytunodd Cadeirydd BLIGC i gysylltu â Darren Lloyd a Chadeirydd/Is-gadeirydd IGMAG i gytuno ar ffordd ymlaen.

Cam Gweithredu: Fforwm IGMAG i roi cyngor i BLIGC ar broblemau'r prosiect er mwyn i BLIGC eu huwchgyfeirio.

10. Cofnod Gofal Nyrsio Cymru

Yn dilyn y cyflwyniad gan Fran Beadle mewn perthynas â digideiddio dogfennau nyrsio yn y cyfarfod diwethaf, rhoddwyd cyflwyniad i aelodau (cyn y cyfarfod) a oedd yn rhoi diweddariad iddynt ar y prosiect. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar y peilot yng Nghymru a'r broses gyflwyno genedlaethol. Nodwyd bod y prosiect wedi cael effaith sylweddol ar nyrsio. Trafododd aelodau'r camau nesaf ar gyfer y prosiect ond rhoddwyd gwybod iddynt bod y pandemig wedi effeithio ar hyn.

Nododd aelodau'r materion a fydd yn effeithio ar y prosiect hwn, nad ydynt o reidrwydd yn faterion TG neu IG, gan nodi'r angen i ddarbwyllo nyrsys i ddefnyddio iaith a nyrsio cyson safonol i gydnabod y cysyniad ar gyfer diagnosis nyrsio.

Cwestiynwyd a yw'r prosiect wedi'i integreiddio â'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS). Rhoddwyd gwybod i aelodau yr ystyrir hyn wrth i'r system ddatblygu, gan fod y system ar gael mewn seilos mewn Byrddau Iechyd yn unig. Bydd integreiddio NIIAS yn cael ei geisio wrth i'r prosiect ddatblygu, fel y gellir cael mynediad at wybodaeth yn genedlaethol.

Roedd aelodau'n gwerthfawrogi'r gwaith a gyflawnwyd ar y prosiect hwn ond roeddent yn pryderu bod COVID-19 wedi effeithio ar ei gynnydd, gan nodi y dylid blaenoriaethu'r gwaith hwn o ystyried yr angen am ddigideiddio yn ystod y pandemig. Cytunodd Darren Lloyd i adrodd yn ôl ar sylwadau BLIGC.

Cam Gweithredu: Darren Lloyd i adrodd yn ôl ar sylwadau BLIGC ar y prosiect.

11. Asesiad Egwyddorion Caldicott ar Waith (CPIP) ar gyfer Tîm Astudio TIME

Rhoddwyd copi o asesiad CPIP i aelodau gan y Tîm Astudio TIME, a aeth i'r Grŵp Cyngori ar Gyfrinachedd ym mis Ionawr 2020. Fel rhan o'r amodau, roedd yn ofynnol iddynt gwblhau asesiad CPIP a gwneud BLIGC yn ymwybodol o'r canlyniad. Darparwyd yr asesiad hwn i'r aelodau er gwybodaeth.

Cydnabu'r aelodau yr asesiad ac nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach.

12. Swyddogaeth Swyddog Diogelu Data (DPO) ar gyfer Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol – Diweddariad

Nododd yr aelodau gynnwys y papur a ddarparwyd gan wasanaeth DPO NWIS ar gyfer Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol, a roddwyd er gwybodaeth.

Cydnabu'r aelodau y diweddariad ac nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach.

13. Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIA)

Cafodd yr aelodau nifer o Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd er gwybodaeth.

Er nad oedd unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, cwestiynwyd proses gymeradwyo'r PIAs hyn. Ystyriodd yr aelodau a ddylai IGMAG graffu ar y PIAs cenedlaethol sydd â risg uchel a'u huwchgysylltu i BLIGC i'w cymeradwyo. Nodwyd nad yw IGMAG yn fwrdd cymeradwyo felly dim ond cyngor y gall ei ddarparu. Felly, byddai'n ofynnol eu trosglwyddo i BLIGC gyda'r argymhelliad i'w cymeradwyo. Cytunodd Darren Lloyd i drafod gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd IGMAG a chynnwys Cadeirydd BLIGC fel y bo'n briodol.

Cam Gweithredu: Darren Lloyd i drafod proses gymeradwyo'r PIAs cenedlaethol gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd IGMAG ac i gynnwys Cadeirydd BLIGC yn y trafodaethau hyn fel y bo'n briodol.

14. Unrhyw Fater Arall

Ni chafwyd trafodaeth bellach rhwng yr aelodau.

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf, a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 8 Hydref, yn cael ei gynnal yn rhithwir, oni nodir fel arall. Bydd cyfathrebu ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael ei ddosbarthu trwy Ysgrifennydd BLIGC.

Atodiad 1 – Camau gweithredu o'r cyfarfod hwn

[Mae crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r cyfarfod presennol wedi'i gynnwys isod]

Cyfeirnod Cam Gweithredu	Disgrifiad	Cam Gweithredu	Gan
2-07/20	Datganiadau o Fuddiannau	Ysgrifennydd i gysylltu ag aelodau nad ydynt wedi llenwi eu ffurflen Datganiadau o Fuddiannau.	Ysgrifennydd
9-07/20	Prosiect Datix CloudIQ Unwaith i Gymru	Fforwm IGMAG i ddarparu cyngor i BLIGC ar faterion y prosiect er mwyn i BLIGC eu huwchgyfeirio.	JP/NS
10-07/20	Cofnod Gofal Nyrsio Cymru	Darren Lloyd i adrodd sylwadau BLIGC yn ôl i'r prosiect.	DL
13-07/20	Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd	Darren Lloyd i drafod proses gymeradwyo'r PIAs cenedlaethol gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd IGMAG ac i gynnwys Cadeirydd BLIGC yn y trafodaethau hyn fel y bo'n briodol.	DL, JP, NS a'r Cadeirydd

Atodiad 2 – Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

Mae camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol nad ydynt wedi'u cwblhau yn Atodiad 2 o hyd gyda disgrifiad byr o unrhyw gynnydd a wnaed. Ar ôl cau, cânt eu copïo i Atodiad 3 fel cam gweithredu sydd wedi'i gau]

Cyfeirnod Cam Gweithredu	Disgrifiad	Cam Gweithredu	Gan	Cynnydd
8-01/20	Addewid Data	Ychwanegwyd i'r agenda i'w drafod ymhellach.	Ysgrifennydd	Wedi'i ohirio oherwydd bod uwchgyfeiriadau brys wedi'u hychwanegu at agenda BLIGC.
11.1-01/20	Diweddariad Cenedlaethol Porth Cleifion	Darren Lloyd i drafod â Chadeirydd ac Is-gadeirydd IGMAG sut y gall IGMAG ddatblygu cyfeiriad / egwyddorion strategol ynghylch pryderon IG contractio gyda chyflenwyr.	DL, JP ac NS	Mae ar y gweill, mae'n cael ei oedi oherwydd COVID-19.
11.2-01/20	Diweddariad Cenedlaethol Porth Cleifion	Diweddariad i'w ddarparu ar ddogfen	DL a JP/NS	Dibynnu ar Weithred Cyf:

Cyfeirnod Cam Gweithredu	Disgrifiad	Cam Gweithredu	Gan	Cynnydd
		egwyddorion yn y BLIGC nesaf.		11.1-01 / 20 uchod.
12-01/20	Cronfa ddata Llifoedd Data rhwng Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau / Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)	Cofrestr Llifoedd Gwybodaeth i'w hychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.	Ysgrifennydd	Wedi'i ohirio oherwydd bod uwchgyfeiriadau brys sydd wedi'u hychwanegu at agenda BLIGC.
11-12/18	Ein Dyfodol mewn Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Ddata	Gwahodd awduron yr adroddiad i gyfarfod BLIGC yn y dyfodol	Ysgrifennydd	Gwahoddir awduron ar amser addas.
14-12/18	Unrhyw Fater Arall	Mae angen Cynrychiolydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bwrdd – Siarad â Llywodraeth Cymru	Darren Lloyd	I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad aelodaeth.
5.1.2-10/18	Cylch Gorchwyl BLIGC wedi'i ddiweddarau i'w gymeradwyo	Chris Newbrook i egluro'r gofynion sy'n ymwneud â chyfnodau aelodau BLIGC	Chris Newbrook	Gohiriwyd nes bod cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol.
6.1-10/18	Swyddogaeth DPO ar gyfer Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol	Llywodraeth Cymru i godi pryderon y Bwrdd yn fewnol mewn perthynas â diffyg cefnogaeth DPO i ddarparwyr gofal sylfaenol nad oeddent o fewn cwrdd y gwasanaeth.	Chris Newbrook	Gohiriwyd nes bod cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol.
13.1-10/18	Diweddariad IGMAG – Cofrestr Risg	Chris Newbrook i drafod perchnogaeth risgiau IG cenedlaethol gyda Chadeirydd IGMAG y tu allan i'r cyfarfod	Chris Newbrook	Gohiriwyd nes bod cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol.

Atodiad 3 – Camau Gweithredu sydd wedi'u Cwblhau

[Cedwir y camau gweithredu hyn yn y cofnodion 'er gwybodaeth' ar gyfer un cyfarfod ar ôl eu cwblhau]

Cyfeirnod Cam Gweithredu	Disgrifiad	Cam Gweithredu	Gan	Cynnydd
6-01/20	Diweddariad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Ysgrifennydd i anfon dolen at Gamau Gorfodi'r ICO am wybodaeth.	Ysgrifennydd	Wedi'i gwblhau
10-01/20	Cofnod Gofal Nyrso Cymru	Sleidiau'r cyflwyniad i gael eu rhannu ag aelodau.	Ysgrifennydd	Wedi'i gwblhau
11.2-01/20	Diweddariad Cenedlaethol Porth Cleifion	BLIGC i anfon cydnabyddiaeth i PKB bod y Bwrdd wedi derbyn ymatebion ac y trafodwyd y rhain yn BLIGC.	Ysgrifennydd	Wedi'i gwblhau
14-01/20	Diweddariad Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)	Strategaeth WASPI i'w chyflwyno i BLIGC yn y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.	Ysgrifennydd	Wedi'i gwblhau
5.1-10/19	Ffurflenni Datganiad o Fuddiant	Bydd yr ysgrifennydd yn anfon ffurflenni Datganiad o Fuddiant at aelodau, unwaith y bydd eu haelodaeth wedi'i wirio, iddynt eu llofnodi a'u dychwelyd.	Ysgrifennydd	Ar gau